

Mawrth y cyntaf

Mawrth y cyntaf dyma'r dydd
I gofio Dewi – cryf ei ffydd
Mab i Non – yn Gymro gwiw
Fe anwyd hwn yn fab i Dduw.

Dewi Dewi Dewi Sant
Canwn glod am ein nawddsant
Dewi Dewi Dewi Sant
Dathlwn ni ein nawddsant.

Rhanodd Dewi neges Duw
Gan ddangos i ni sut i fyw
fe gododd bryn o dan ei draed
a gobaith oedd yn llenwi'r gwaed.

Dyn y gwyrthiau ydoedd ef
Dangosodd lwybr clir i'r nef
Ar Fawrth y cyntaf dathlwn ni
Gan wisgo'r cennin – codwn gri.

Ar y bryn

ar y bryn daeth pren o bren braf
y pren ar y bryn a'r bryn ar y ddaear,
a'r ddaear ar ddim
ffeind a braf oedd y bryn
lle tyfodd y pren

ar y pren daeth cainc...

ar y gainc daeth nyth...

o'r nyth daeth wy

o'r wy daeth cyw

o'r cyw daeth plu

o'r plu daeth gwely, o wely braf
y gwely o'r plu, y plu o'r cyw,
y cyw o'r wy, yr wy o'r nyth
y nyth ar y gainc, y gainc ar y pren,
y pren ar y bryn
y bryn ar y ddaear a'r ddaear ar ddim
ffeind a braf oedd y bryn lle tyfodd y pren.

Dewi Sant

D sydd am ein Dewi fo yw'n Nawdd Sant
E sydd am yr enw ffefryn yr holl blant
W sydd am wyl Dewi dathlwn ni i gyd
I sydd am iaith Cymru sy'n para o hyd

W Dewi Dewi ddd Dewi

S ydd am ein Sant, cadarn ei ffydd
A sydd am arweinydd gorau yn ei ddydd
N sydd am Non mam Dewi oedd hi
T sydd am Tyddewi, lle sanctaidd I ni.

W Dewi Dewi ddd Dewi

Owain Glyndwr

Derbyniaf her fy ffrindiau
Ers eu cosbi'n ddwfn i'm mron
Mae seren ar i fyny
Ni chawn anwybyddu hon
Fe safwn gyda'n gilydd
A hyn er lles y wlad
A chodwn Gymru eto
O'i chyflwr a'i sarhad

Ie Glyndwr Ie Glyndwr
Clywyd son am hwn ymhobman
Dyma fo y mab darogan
Dyma'r union un i'n harwain ni Glyndwr

Mae'r freuddwyd yn ein dwylo
Awn ymlaen dros Gymru rydd
Y frwydr fydd yn ffyrnig
Ac yn Owain mae ein ffydd
Fe safwn gyda'n gilydd
A hyn er lles y wlad
A chodwn Gymru eto
O'i chyflwr a'i sarhad

Safwn ni yn gryf a chadarn
Safwn ni fel craig
Gyrrwch neges drwy yr hen wlad
Uwchben Sycharth chwyth y ddraig